

# Galluogi arloesi di-wifr drwy drwyddedu lleol

Mynediad a rennir i sbectrwm sy'n cefnogi technoleg  
symudol

---

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 25 Gorffennaf 2019

# Cynnwys

---

## Adran

1. Trosolwg

1

# 1. Trosolwg

Mae amleddau radio yn hynod bwysig i economi a chymdeithas y DU gan eu bod yn caniatáu i bob dyfais gyfathrebu ddi-wifr, yn cynnwys ffonau symudol a band eang di-wifr, weithredu. Rydym eisieu cefnogi arloesedd a galluogi defnyddio sbectrwm mewn ffyrdd newydd, ac rydym yn cydnabod bod diddordeb cynyddol mewn defnyddio technoleg symudol, yn cynnwys 5G, i ddatblygu atebion i anghenion cysylltedd di-wifr lleol. I sicrhau nad yw diffyg mynediad i'r sbectrwm radio yn atal arloesi, rydym yn cyflwyno trefn drwyddedu newydd i ddarparu mynediad lleol at fandiau sbectrwm sy'n gallu cynnal technoleg symudol.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut byddwn ni'n caniatáu i fwy o bobl a busnesau ddefnyddio sbectrwm o blith dewis o fandiau amledd. Gallai mynediad lleol at y bandiau hyn gynnal twf ac arloesedd ar draws amryw o sectorau, er enghraifft gweithgynhyrchu, menter, logisteg, amaethyddiaeth, mwyngloddio ac iechyd. Gallai alluogi sefydliadau i sefydlu'r rhwydweithiau lleol eu hunain gyda mwy o reolaeth dros ddiogelwch, cadernid a dibynadwyedd nag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Er enghraifft, gweithgynhyrchwyr yn cysylltu peiriannau'n ddi-wifr, ffermwyr yn cysylltu dyfeisiau amaethyddol fel systemau dyfrhau a thractorau clyfar yn ddi-wifr, defnyddwyr menter yn sefydlu rhwydweithiau llais a data preifat diogel o fewn safle, yn ogystal â chysylltedd band eang di-wifr gan ddefnyddio mynediad di-wifr sefydlog mewn ardaloedd gwledig (FWA).

## Ein penderfyniad – yn gryno

**Rydym yn darparu sbectrwm yn y bandiau sbectrwm 3.8-4.2 GHz, 1800 MHz<sup>1</sup> a 2300 MHz<sup>2</sup> drwy drwyddedau lleol.** Gall pobl wneud cais i Ofcom am fynediad wedi'i gydlynu (mae hyn yn sicrhau na fyddant yn achosi ymyriant) i'r bandiau hyn ar sail y cyntaf i'r felin, a byddant yn talu ffi drwydded sy'n adlewyrchu cost darparu'r drwydded i Ofcom. I sicrhau proses syml ar draws y bandiau mynediad a rennir, byddwn hefyd yn cysoni'r drefn awdurdodi i'r rhai sydd â thrwyddedau yn barod yn sbectrwm a rennir 1800Mhz gyda'r drefn awdurdodi ar gyfer y bandiau mynediad a rennir sy'n cael eu cadarnhau yn y datganiad hwn.

**Rydym yn cyflwyno ffordd newydd o gael mynediad i sbectrwm sydd wedi'i drwyddedu'n barod ar gyfer gweithredwyr symudol ond nad yw'n cael ei defnyddio mewn ardal benodol ac nad oes cynlluniau i wneud hynny yn y tair blynedd nesaf.** Gall pobl wneud cais i Ofcom am drwydded ac, os bydd y cais yn llwyddiannus, byddant yn talu £950 y drwydded, sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio'r sbectrwm am dair blynedd oni bai eu bod yn gofyn am gyfnod gwahanol a bod posibl cytuno ar hynny gyda'r rhai sydd â thrwyddedau yn barod.

**Rydym wedi ychwanegu'r band 24.25-26.5 GHz i'n fframwaith rhannu sbectrwm i'w ddefnyddio dan do yn unig.** Mae hyn yn rhan o'r band 26 Ghz, sydd wedi'i ddynodi'n fand 5G arloesi Ewropeaidd, a gallai ddarparu opsiynau sbectrwm ychwanegol i geisiadau newydd.

<sup>1</sup> 1781.7-1785 MHz wedi'i baru ag 1876.7-1880 MHz, y cyfeirir ato fel "sbectrwm a rennir 1800 MHz"

<sup>2</sup> 2390-2400 MHz, y cyfeirir ato fel "sbectrwm a rennir 2300 MHz"